Issue 9.

# Cylchlythyr Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio Cyngor Caerdydd

Hydref / Gaeaf



Croeso i Gylchlythyr ein Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio

Rwy'n bwriadu ysgrifennu ein cylchlythyr ddwywaith y flwyddyn, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y gwaith a gyflawnwyd gennym, y gwaith rydym wedi ei gynllunio a'n canlyniadau. (David Hugh Thomas, Cadeirydd)

## Adroddiad Hunan-Asesu (Llesiant) ac Adolygiad o'r Amgylchedd Rheoli

### Adroddiadau'r Prif Weithredwr

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Prif Weithredwr, Paul Orders, wedi mynychu ein Pwyllgor bob blwyddyn, i roi sicrwydd ar amgylchedd rheoli mewnol y Cyngor (a gynrychiolir gan y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheoli mewnol).

O eleni ymlaen, mae cwmpas yr adroddiad blynyddol hwn wedi ehangu, i gydnabod gofyniad newydd y Pwyllgor i adolygu'r Adroddiad Hunan-Asesu blynyddol drafft a gwneud unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau yn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Amlinellir isod ein hadolygiad ar y ddau faes y cyfeirir atynt uchod.

### Diweddariad Amgylchedd Rheoli'r Cyngor

Derbyniodd ein Pwyllgor fraslun o fframweithiau perfformiad a sicrwydd y cyngor, y trefniadau ar waith i oruchwylio a rheoli eu gweithrediad effeithiol, a'r trefniadau adrodd a gwella sydd ar waith.

Roedd hyn yn cynnwys fframwaith cynllunio a pherfformiad y Cyngor, prosesau sicrwydd a threfniadau adolygu uwch reolwyr, trefniadau sicrwydd annibynnol, a threfniadau rheoli risg.

Roedd y trosolwg yn atgyfnerthu'r farn a'r safbwyntiau a gawsom gan Gyfarwyddwyr unigol dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Dwedwyd wrthym am yr heriau fydd yn dominyddu'r dirwedd yr hydref hwn a ddaeth i'r amlwg yn ystod y gwanwyn, sef pwysau economaidd, cynyddol, a mwy a mwy cymhleth, y galw yn y gwasanaethau plant, pwysau system yn y gwasanaethau oedolion, a rheoli dyfodiad nifer sylweddol o ffoaduriaid o Wcráin yng Nghaerdydd a'u anghenion cymorth a gwasanaethau cysylltiedig.

Mae'n bwysig cofio, yn ystod cyfnodau o her neu anhawster, bod cynnal systemau llywodraethiant cadarn, rheoli risg a rheoli mewnol yn hanfodol i arwain, cefnogi, a sicrhau'r Cyngor wrth iddo gyflawni ei amcanion, a'i weithgareddau.

### Adroddiad Hunan-Asesu (Llesiant)

Adolygodd ein pwyllgor adroddiad Hunan-Asesu Blynyddol drafft y cyngor (a gynrychiolir gan yr Adroddiad Llesiant blynyddol) yn ystod ein cyfarfod fis Medi.

Roedd y cyfarfod yn addysgiadol, lle cawsom amlinelliad clir o'r gwahanol gydrannau perfformiad a sicrwydd sy'n rhan o'r asesiad cyffredinol. Fe wnaethon ni godi cwestiynau wedi i ni ystyried yr adroddiad a chael esboniadau defnyddiol.

Yn dilyn y cyfarfod, cafodd tudalennau rhagarweiniol yr adroddiad eu dosbarthu, ac fe wnaethom grynhoi barn ein pwyllgorau a pharatoi Llythyr ar y cyd at yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr.

Roedd ein Pwyllgor o'r farn bod yr adroddiad blynyddol yn gynhwysfawr ac wedi ei ysgrifennu yn broffesiynol, ac roeddem yn cydnabod y broses hunan-asesu sydd wedi ei strwythuro'n dda.

Roedd yr argymhellion a'r arsylwadau a godwyd gennym gyda'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn sgil ein hadolygiad yn ymwneud â meysydd lle'r oeddem o'r farn y gellid gwella'r modd y cynrychiolid perfformiad y Cyngor

# Sicrwydd Annibynnol

## Adroddiadau Blynyddol a Barn

### Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio

Ystyriwyd ein Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio 2021/22 gennym yn ein cyfarfod fis Gorffennaf cyn adrodd i'r Cyngor fis Medi.

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'n gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys ein prif arsylwadau a'n barn. Dros y flwyddyn cawsom nifer o eitemau ar yr agenda i gyflawni ein rôl. Mae disgrifiad o'r gwaith hwn a'i ganlyniadau wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad. Rydym hefyd yn adrodd sut rydym wedi mesur ac asesu ein perfformiad er mwyn rhoi sicrwydd i'r rhai sy'n dibynnu ar ein gwaith.

Mae'n barn ystyriol am y flwyddyn ariannol 2021/22 wedi ei chynnwys yn yr adroddiad, a daeth i'r casgliad "ar y cyfan, mae gan y Cyngor reolaethau mewnol cadarn a threfniadau llywodraethiant yn eu lle. Caiff risgiau strategol sy'n cynrychioli'r heriau gwirioneddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu eu nodi a'u hadolygu'n rheolaidd."

Mae'r adroddiad yn nodi'r meysydd canlynol y byddwn yn ceisio sicrwydd parhaus penodol ar eu cyfer:

- Rheoli Cyllidebau
- Rheoli Mewnol
- Llywodraethiant a Chydymffurfiaeth Ysgolion
- Gwydnwch Ariannol a Rheoli'r Trysorlys

### Archwilio Mewnol

Ystyriwyd yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2021/22 gennym yn ein cyfarfod fis Gorffennaf.

Mae'r adroddiad yn cynnwys adolygiad o amgylchedd rheoli mewnol y Cyngor a barn y Rheolwr Archwilio, Chris Pyke. Mae'n nodi manylion y gwaith archwilio a gwblhawyd i gefnogi'r farn ac yn rhoi gwybodaeth am berfformiad a sicrwydd cydymffurfiaeth barhaus â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Mae'r adroddiad yn amlinellu cyd-destun y pandemig parhaus, ymagwedd y tîm archwilio i ddarparu cyfuniad o gymorth rheoli drwy ymgynghori ac ymgysylltu mewn meysydd risg uchel, a datblygu ymgysylltiadau sicrwydd targedig yn deillio o'r Cynllun Archwilio.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi, "ar sail y rhaglen o waith archwilio a wnaed i asesu'r fframwaith a'r defnydd o lywodraethiant, rheoli a rheolaeth risg, mai'r farn flynyddol ar gyfer 2020/21 yw effeithiol gyda lle i wella. Mae'r farn hon yn seiliedig ar lunio Cynllun Archwilio digonol, a chan gydnabod y pwysau sylweddol ar adnoddau yng nghyd-destun pandemig parhaus o ran galw a chyllidebau, a gafodd eu rheoli trwy gyfrwng diwylliant perfformiad gwydn."

### Sicrwydd Parhaus

**Archwilio Mewnol**

- Rydym yn derbyn diweddariad ar waith, mentrau a chanlyniadau gwasanaethau Archwilio Mewnol a Gwrth-Dwyll y Cyngor bob chwarter.
- Os hoffech chi wybod mwy am waith y tîm, ewch i'n gwefan.

**Archwilio Allanol**

- Rydym yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan ein harchwilydd allanol ar eu rhaglen waith a'u hamserlen.
- Derbyniwyd ein diweddariad mwyaf diweddar fis Gorffennaf ac mae ar gael ar wefan y Cyngor.

**Traciwr Argymhellion**

Mae ein Pwyllgor yn derbyn adroddiad cyfunol ddwywaith y flwyddyn ar yr argymhellion sydd wedi'u derbyn gan gyrff adolygu allanol (Archwilio Cymru, Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru, ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi). Mae'r adroddiad yn cynnwys diweddariad rheoli o sut mae pob argymhelliad yn cael sylw ac yn fwy diweddar mae manylion wedi'u hychwanegu gan y bwrdd neu'r pwyllgor goruchwylio perthnasol. Roedd ein diweddariad mwyaf diweddar ar Adroddiadau gan Gyrff Adolygu Allanol fis Gorffennaf.

## Rhwydweithio ac Ymgysylltu

### Rhwydwaith Cadeiryddion Pwyllgorau Llywodraethiant ac Archwilio Cymru Gyfan

Mae ein Rheolwr Archwilio wedi parhau i arwain ar gydlynu Rhwydwaith Cadeiryddion Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio Cymru Gyfan, a noddir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

Mae'r digwyddiadau rhwydwaith hyn yn gyfle amhrisiadwy i Gadeiryddion gyfarfod, rhannu profiadau a ffyrdd o weithio, ac i glywed gan siaradwyr arbenigol ar arferion da wrth gyflawni ein rolau, a gweithrediad ein Pwyllgorau.

Yn ystod mis Hydref, cynhaliwyd digwyddiad cyfarfod aml-leoliad a fynychwyd gan y cynrychiolwyr naill ai'n bersonol neu o bell. Cyflwynwyd y sesiynau gan Diana Melville, Cynghorydd Llywodraethiant Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) ac roeddent yn cwmpasu:

- Datganiad Sefyllfa CIPFA ar Bwyllgorau Archwilio 2022 a chanllawiau ategol
- Asesu Effeithiolrwydd Pwyllgor, drwy waith sesiwn grŵp
- Edrych ar feysydd dyrys i Gadeiryddion a thrafodaethau grŵp am y ffyrdd ymlaen
- Trosolwg o'r gofynion newydd ar gyfer Pwyllgorau o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Diana yw awdur y canllawiau craidd ar gyfer Pwyllgorau Archwilio gan CIPFA (Practical Guidance for Local Authorities and Police), sy'n cael ei gydnabod yn eang fel arfer gorau blaenllaw. Roedd yn amserol iawn trafod cyhoeddiad 2022 gyda hi a gafodd ei ryddhau yn ystod mis Hydref.

## Adolygiadau Parhaus

### Cwynion a Chanmol

Mae gan ein pwyllgor rôl i adolygu'r trefniadau ar gyfer delio â chwynion o fewn y Cyngor.

Yn ystod mis Gorffennaf, cawsom ddiweddariad am weithredu system gwynion corfforaethol newydd, a ddilynodd sesiwn friffio a gawsom ar fanyleb y system, a'r adolygiad ar sail prosiectau a gwneud penderfyniadau a ddefnyddiwyd i lywio'r broses gaffael.

Roedd yr adroddiad a gawsom yn rhoi:

- manylion y lefel bresennol o sicrwydd o ffynonellau mewnol yn ogystal â sylwebaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru,
- manylion ar ddatblygiad a'r bwriad i ddefnyddio'r system gwynion corfforaethol newydd.
- Drafft o Adroddiad Blynyddol Cwynion a Chanmol 2021/22 ar gyfer cyd-destun ehangach.

Gan fod trefniadau a chyfrifoldebau ar wahân ar gyfer trin cwynion swyddogion yn gorfforaethol, mewn ysgolion ac o fewn y gwasanaethau cymdeithasol, rydym yn adolygu'r trefniadau sicrwydd ar wahân sydd ar waith. Byddwn wedyn yn edrych yn fanylach ar bob trefniant.

### Rheoli Risg

Mae ein pwyllgor wedi parhau i dderbyn diweddariadau rheoli risg corfforaethol chwarterol, yr ydym drwyddynt, wedi ystyried a thrafod Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor. Cafwyd i diweddariad mwyaf diweddar yn ein cyfarfod fis Medi.

Cawsom gyngor yn ein cyfarfod ym mis Medi bod ffocws wedi bod ar adolygu Cofrestrau Risg y Cyfarwyddiaethau yn ystod chwarter un, er mwyn sicrhau bod yr holl risgiau perthnasol wedi'u dal. Cynghorwyd ni hefyd bod swyddogion arweiniol wedi adolygu cofrestrau risg i wella'r broses o gofnodi mesurau lliniaru risg a thargedau.

Pan fyddwn yn gwahodd uwch swyddogion i fynychu cyfarfodydd pwyllgor, rydym yn ceisio deall y rheolaethau sydd ar waith i reoli risgiau'r gyfarwyddiaeth, fel rhan o ddiweddariadau sicrwydd ehangach.

## Rheoli Ariannol

### Diweddariad Ariannol a Materion Gwydnwch

Mae ein Pwyllgor wedi parhau i dderbyn diweddariadau ariannol gan Chris Lee, (Swyddog Adran 151 ac Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau) ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor. Yn ein cyfarfod fis Medi, cawsom gyngor bod disgwyl i wariant net fod yn fwy na'n cyllideb o gryn dipyn, fel ag yr oedd pethau ddiwedd mis Gorffennaf.

Dwedwyd wrthym fod y prif resymau am fwy o wariant net, yn ymwneud â materion a nodwyd yn Datblygu Economaidd, Addysg a Gwasanaethau Plant, er i arwyddocâd y rhain gael eu gwrthbwyso gan arbediad yn erbyn y gyllideb ar gyfer tanddefnyddio'r gyllideb COVID / ynni.

Cawsom wybod hefyd y bydd y sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn wedi gwaethygu gan nad yw'r dyfarniad cyflog wedi'i gwblhau er mwyn gallu ei gyfrifo, mae costau ynni wedi cynyddu, ac mae yna bwysau eleni nad ydynt wedi eu lliniaru'n llawn.

Fe’n hysbyswyd ni am y camau nesaf i’w cymryd gan gynnwys adolygiad Cabinet, camau lliniaru a gwaith ar strategaeth y gyllideb.

Gellir gweld y diweddariad a gawsom ar wefan y Cyngor.

### Rheoli’r Trysorlys

Trwy ei waith Rheoli’r Trysorlys mae angen i'r Cyngor lywodraethu a rheoli ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau'n effeithiol, gyda doethineb ac yn unol â chodau, safonau a chanllawiau proffesiynol. Mae ein Pwyllgor yn adolygu ac yn ystyried adroddiadau perthnasol ar sut mae hyn yn cael ei ddangos.

Fis Medi, derbyniodd ein Pwyllgor ddrafft o Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2021/22 cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor. Mae hyn yn unol â’n rôl i geisio sicrwydd bod y Cyngor wedi cydymffurfio ag Arferion a Strategaeth Rheoli Trysorlys trwy ddangos bod risgiau cysylltiedig yn cael eu rheoli’n effeithiol a cheisio’r perfformiad gorau posib yn gyson â’r risgiau hynny.

Er bod yr adroddiad blynyddol yn edrych yn ôl, fe drafodon ni yr amodau economaidd anodd presennol gyda swyddogion a chawsom wybod y bydd Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn cael ei hadolygu a’i hystyried yn yr hydref yn seiliedig ar nifer o ffactorau, gyda chefnogaeth cyngor gan ymgynghorwyr allanol, a dangosyddion fforddiadwyedd.

## Amdanom ni a'n Gwaith

| Llywodraethiant | Rheoli Mewnol | Cyllid | Rheoli Risg | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|

Rydym yn bedwar Aelod Lleyg Annibynnol ac wyth Cynghorydd

- ✓ Rydym yn adolygu llywodraethiant a rheolaethau mewnol
- ✓ Rydym yn adolygu adroddiadau ariannol, rheoli ariannol a gwerth am arian
- ✓ Rydym yn adolygu rheoli risg
- ✓ Rydym yn adolygu'r asesiad perfformiad

Rydym yn derbyn ac yn trafod adroddiadau a'r wybodaeth ddiweddaraf gan ystod o Reolwyr, y Timau Archwilio Mewnol ac Allanol.

Beth am wylio ein cyfarfodydd a gaiff eu gwe-ddarlledu

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English